Diwrnod Hyfforddi Gwersylloedd 2011 – Gwydion Lewis

Paratoi Gweithgaredd

1. **<u>Cyn dechrau arni</u>** Rydych chi wedi cytuno i fod yn gyfrifol am ryw dasg. Eistedd lawr - papur a beiro - meddwl am syniadau gwreiddiol (ar y thema efallai). Meddwl tu allan i'r bocs.

2. **<u>Chwilio am syniadau</u>** – gwefannau, llyfrau, holi llawer o bobl, syniadau gwreiddiol, addasu rhywbeth o'r teledu (e.e. cwis).

3. **<u>Fel enghraifft,</u>** fe ddychmygwn ni ein bod ni'n paratoi sesiwn prynhawn awyr agored e.e. – datrys problemau/Team Building.
    - Gwneud rhestr o wahanol weithgareddau – unrhywbeth - digon o enghreifftiau – mae'n well cael gormod na dim digon.
    - Trio nhw mas! Gwneud mock up - sefyll ar fat, gostwng bamboo etc - ydy e'n gweithio. Oes modd gwella arno e.e. ychwanegu elfen amseru? Gofyn am adborth gan rywun arall.
    - Cofio'r lleoliad – meddyliwch ble rydych chi'n bwriadu gwneud y gweithgaredd. Ydy e'n addas?
    - Oes amrywiaeth? - Dim gormod o bwyslais ar sgil chwaraeon e.e. cic at y crossbar. A fydd y gweithgareddau yn apelio at drawstoriad o blant? Os ydych chi'n trefnu cwis - eto cofio bod angen amrywiaeth e.e. dim un rownd rhy hir, gwahanol sgiliau.
    - Ydy e'n ddiogel?
    - Ydy e'n ddigon o sialens – rhy hawdd/rhy anodd?
    - Ydy e'n hwyl?!
    - Oes modd cael gafael ar yr offer angenrheidiol?

4. **<u>Penderfynu</u>** ar yr hyn rydych chi'n mynd i wneud (e.e. yn yr enghraifft uchod, dewiswch 7 sialens, er efallai na fyddwch chi'n defnyddio'r 7)
    - Sawl gorsaf?
    - Faint fydd ym mhob tîm? (oes angen rhif penodol ar gyfer unrhyw sialens)
    - Lleoliad pob sialens – meddwl am ffactorau ymarferol
    - Amser? - er mwyn cadw rhediad bydd angen i bob gweithgaredd fod yr un hyd - falle bydd angen gwneud ambell sialens 2 waith.
    - Sut ni'n mynd i sgorio pob gweithgaredd?

- Sawl swyddog fydd angen (a fydd angen iddyn nhw fod yn aelod o dîm neu yn rheoli'r sialens?)
- Sut fydda i'n dechrau'r gweithgaredd – e.e. sut fydda i'n rhannu pawb ar y dydd – ceisio osgoi pobl yn hongian o gwmpas!
    - gêm o huddles – ffordd o weld faint sydd yna
    - gêm a phawb yn rhan ohono
    - timau'r gwersyll
- Pethau ymarferol – ewch trwy'r gweithgaredd yn llythrennol neu yn y meddwl, er mwyn ceisio adnabod problemau/peryglon.
- A fydd angen ailosod offer rhwng tasgau e.e. codi pabell – tynnu fel lawr cyn y criw nesaf.
- Amseriad y cyfan - y sialensiau, mynd o un i'r llall, setlo ac ati.
- Cwestiwn mawr!!! – beth os fydd hi'n bwrw? Efallai y gallwch chi addasu rhai ar gyfer tu fewn, neu efallai bydd hynny'n amhosibl. Falle bydd angen gemau gwahanol – ond cofiwch feddwl a pharatoi o flaen llaw a chofnodi'r syniadau ar bapur.

5. <u>Cynnal y Gweithgaredd</u>

- Offer i gyd – bydd angen sicrhau bod popeth gyda chi o flaen llaw (h.y. cyn y gwersyll). Byddwch yn ofalus – efallai na fydd amser i'ch rhyddhau chi i fynd i brynu offer yn ystod yr wythnos. Peidiwch cymryd yn ganiataol y cewch fenthyg offer y ganolfan.
- Trefnu'r offer – gosod i fyny cyn i'r gwersyllwyr gyrraedd y cae.
- Sicrhau bod y swogs yn gwybod eu rôl. Beth rydych chi'n ei ddisgwyl ganddyn nhw?
- Meddyliwch sut fyddwch chi'n arwain. Mewn gweithgaredd awyr agored bydd angen tôn llais cryf ac osgo corff egnïol - swogs eraill i helpu i osod y naws. Mewn gweithgaredd fel cwis, bydd angen i chi fod yn dawelach - swogs eraill i helpu i gael y plant i wrando. Cydweithrediad pawb.
- Talu sylw i gyflymder/pace y gweithgaredd – dim gormod o hongian o gwmpas.
- Addasu yn ôl y galw
    - Rhywbeth braidd yn boring – newid
    - Rhy fyr – ymestyn
    - Peryglus – newid neu addasu
- Amynedd
- Dod i ben - sut ydych chi'n mynd i orffen - oes angen rhoi sgôr, oes gwobr, gêm pawb gyda'i gilydd i orffen, diolch etc.